



Dyma dy fam!

TAFLEN FFEITHIAU: MANYLION YR APÊL A GWYBODAETH AM Y WLAD



Bedyddwyr Cymru yn cefnogi mamau yn Ghana

Iechyd mamol yng ngogledd Ghana

Mae Ghana yn datblygu i fod yn un o wledydd llwyddiannus Affrica - mae'n ddemocratiaeth sefydlog ac mae'n tyfu'n economaidd, ac wedi gosod nod i fod yn wlad sydd wedi datblygu erbyn 2029.

Mae Ghana hefyd yn gwneud cynnydd mewn iechyd mamol. Yn ôl cyhoeddiad gan Asiantaeth y Cenhedloedd Unedig sydd yn cael ei arwain gan Grŵp Amcangyfrif Marwolaeth Famol (MMEIG), mae cyfradd marwolaeth famol Ghana wedi gostwng 49% rhwng 1990 a 2013. Yn 1990, ym mob 100,000 genedigaeth byw, bu farw 760 mam. Disgynnodd nifer y marwolaethau'n syfrdanol erbyn 2013, i 380. Ond mae'r ffigwr hwn yn parhau i fod yn rhy uchel ac mae'n uwch na'r nod o 150 a osodwyd gan Nodau Datblygu'r Mileniwm. Er y cynnydd hwn yn y wlad, mae cryn anghydraddoldeb yn Ghana ac mae'r rhanbarthau gwledig yn y gogledd yn dlawd iawn. Gwelir un agwedd o'r anghydraddoldeb hwn yn y ffaith bod marwolaethau mamol yn llai yn y rhanbarthau sy'n agos i'r brifddinas Accra, ond gryn dipyn uwch yn y rhanbarthau sydd ymhellach i ffwrdd.

Tu ôl i'r ystadegau hyn, wrth gwrs, mae yna deulu mewn galar dwfn wrth iddynt profi colli mam. Mae Cymorth Cristnogol yn credu y gall hyn newid - a gyda'ch help chi, fe allwn ni lwyddo.

Un ffordd o sicrhau y gall Ghana gyrraedd ei nod yw trwy annog y llywodraeth i drefnu ei gwasanaeth iechyd yn fwy teg o amgylch y wlad. Mae merched yn benodol yn dioddef gwaharddiad cymdeithasol yn y tri rhanbarth gogleddol. Mae yna ddiffyg cyfranogi yng ngwleidyddiaeth y wlad yn y rhanbarthau hyn, sy'n

golygu nad yw'r llywodraeth yn wynebu atebolrwydd digonol.

Sut y defnyddir eich rhoddion

Bydd eich rhoddion yn cael eu defnyddio i ariannu prosiect fydd yn hyfforddi dinasyddion, a merched yn benodol, ar sut i gymryd rhan yn y broses wleidyddol yn lleol a chenedlaethol, er mwyn perswadio'r llywodraeth i wario ar iechyd mamol lle mae ei angen.

Ynglŷn â SEND Ghana

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gweithio efo 'Social Enterprise and Development Foundation Ghana' (SEND Ghana) am fwy na 15 mlynedd. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth efo hwy wrth iddynt weithredu'r prosiect Iechyd Mamol yng ngogledd y wlad.

Yma yng Nghymru fe wyddom yn iawn sut i lobio llywodraeth er mwyn gweld newid: byddwn yn ysgrifennu at ein ASau neu'n ACau; byddwn yn ysgrifennu llythyrau yn y wasg; byddwn yn casglu enwau ar ddeiseb. Ond democratiaeth ifanc sydd yn Ghana a phrin iawn yw profiad y bobl yn y math hwn o ymgyrchu. Ychydig iawn ohonynt sydd efo gwybodaeth drylwyr o bolisïau llywodraeth a'u hawliau fel pobl, a heb yr wybodaeth hon mae'n anodd iddynt ymgyrchu dros newid.

Dyma lle gall SEND Ghana wneud gwahaniaeth.

Bydd SEND Ghana yn hysbysu, hyfforddi, annog, casglu gwybodaeth a chynorthwyo'r person cyffredin i godi llais dros ei chymuned.

**cymorth
cristnogol**



Sut bydd SEND Ghana yn defnyddio eich rhoddion

Darparu addysg ar iechyd mamol

Un agwedd bwysig yw hyfforddi pobl leol ynglŷn â sut fath o iechyd mamol y gellid ei ddisgwyl os ydyw wedi ei ariannu'n deg. Ychydig o ddealltwriaeth sydd gan ferched sy'n byw mewn pentrefi traddodiadol, ymhell oddi wrth ganolfannau trefol, o beth y mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu ei gynnig i wneud eu beichiogrwydd yn ddiogelach. Bydd SEND Ghana yn hyfforddi 'pencampwyr cymuned' i fynd i'r pentrefi hyn a'u hyfforddi ynghylch iechyd mamol. Wedi cael yr wybodaeth bydd y boblogaeth wedyn yn gallu galw am well darpariaeth.



Darparu addysg ar drethiant a gwariant

Bydd SEND Ghana yn hyfforddi pobl ar fater trethiant. Byddant yn dysgu sut mae'r llywodraeth yn casglu trethi a sut y mae'r arian yn cael ei wario. Mae'r rhan fwyaf o bobl Ghana yn talu trethi gwahanol yn lleol a chenedlaethol. Bydd yr hyfforddiant yn eu cynorthwyo i wybod yn union ymhle y caiff yr arian ei wario, a fydd wedyn yn caniatáu iddynt lobio'r llywodraeth ynglŷn â gwario ar iechyd mamol.

Darparu addysg ar broffesiynoldeb staff iechyd

Nid yw diffyg proffesiynoldeb rhai staff y gwasanaeth iechyd wedi bod yn dda i iechyd mamol. Er enghraifft, er bod rhai mamau wedi dod a diheintydd efo hwy yn barod ar gyfer rhoi genedigaeth, maent hefyd wedi gorfod prynu mwy gan y nyrsys yn yr ysbyty. Mewn achosion eraill, mae ambell i yrrwr ambiwlans wedi codi tâl am eu gwasanaeth i famau beichiog. Gan nad ydynt yn gwybod fod y fath ymarfer yn anghywir mae'r teuluoedd unai wedi cael eu tloidi fwyfwy neu wedi dewis peidio â defnyddio'r gwasanaeth iechyd o gwbl.

Trwy fynnu dosraniad teg o wasanaethau mamol trwy'r wlad, ac yn y rhanbarthau gogleddol yn benodol, mae SEND Ghana'n credu y bydd iechyd mamau a'u plant yn gwella'n sylweddol, gan arwain i well ganlyniadau a bywydau gwell.

Manylion ariannol

Rydym yn anelu i godi £40,000. Yr hyn sy'n gyffrous ynglŷn â'r apêl yw y bydd cyrraedd y nod hwn yn denu cyfraniad o €500,000 gan yr Undeb Ewropeaidd, sydd yn cefnogi'r prosiect hyd at ddiwedd Ionawr 2017. Gwnaiff hyn wahaniaeth enfawr i famau Ghana!

Wrth ichi godi'r arian yn eich eglwys gofynnir ichi eu hanfon i bencadlys yr enwad yng Nghaerfyrddin. Gwnewch eich sieciau yn daladwy os gwelwch yn dda i 'Undeb Bedyddwyr Cymru' a'u hanfon i UBC, Y Llwyfan, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA13 3EQ, gan nodi 'Apêl Ghana' ar yr amlen.

